



Themau - *Themes*

Amdano i - *about me*

Patrymau Iaith - *Language patterns*

Mae rhai arddodiaid yn 'rhedeg' fel berfau *Some prepositions conjugate like verbs*

Am	Ar	Wrth
Amdano i	Arno i	Wrtho i
Amdanot ti	Arnot ti	Wrthot ti
Amdano fe	Arno fe	Wrtho fe
Amdani hi	Arni hi	Wrthi hi
Amdanon ni	Arnon ni	Wrthon ni
Amdanoch chi	Arnoch chi	Wrthoch chi
Amdanyn nhw	Arnyn nhw	Wrthyn nhw

Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

am: Mae 'am' yn golygu 'for' neu 'about'. Dyn ni'n defnyddio 'am' gyda:

am: am means for or about. We use it with:

poeni	chwilio
gofyn	aros
clywed	cwyno
meddwl	siarad

Dw i'n poeni amdanot ti.
Mae e'n aros amdanoch chi.

ar: Dyn ni'n defnyddio 'ar' gyda

ar: We use 'ar' with

edrych
Edrycha ar dudalen 6. *Look at page 6.*

gwrando
Mae hi'n gwrando ar y radio. *She's listening to the radio.*

wrth: Dyn ni'n defnyddio 'wrth' gyda:

wrth: We use 'wrth' with:

dweud
Ddwedodd Tom wrthot ti? *Did Tom tell you?*

Tasgau - Tasks

Tasg sain / Audio task

Llenwch y bylchau.

Fill in the gaps.

Dweud beth _____ i?

Darllenais i _____ nhw.

Gofynna i _____ y papur.

Meddylia _____ nhw'n ennill miliwn!

Bydd pobl yn clywed _____. nhw ac yn gofyn am help.

Baswn i'n dweud _____ ti a neb arall.

Faset ti'n cofio _____ i?

Tasg fideo / Video task

Atebwch y cwestiynau hyn.

Answer these questions.

Beth hoffai Siân wybod am Mark?

Am bwy mae'r cwpwl wrth y bwrdd yn siarad?

Ar beth mae'r ferch gyda'r het *bobble* yn gwranddo?

Am beth mae'r dyn gyda'r barf yn cwyno?

Ydy'r ferch yn y sgert binc yn ysgrifennu i Golwg?

Pam mae Siân yn poeni am Mark?

Sgript Sain - Audio Script

- Nia:** Wyt ti wedi clywed am Siân?
- Delyth:** Beth amdani hi?
- Nia:** Ddwedodd Tom wrthot ti?
- Delyth:** Dweud beth wrtho i?
- Nia:** Mae Siân a saith arall o'r swyddfa wedi ennill miliwn ar y loteri.
- Delyth:** Miliwn! Pwy ddwedodd wrthot ti?
- Nia:** Darllenais i amdany'n nhw yn y Western Mail bore 'ma.
- Delyth:** Mae Mr Jones drws nesa yn cael y Western Mail. Gofynna i am y papur nawr.
- Nia:** Edrycha ar dudalen 6 a darllena amdany'n nhw'n derbyn y siec yn Llundain ddoe.
- Delyth:** Wel, meddylia amdany'n nhw'n ennill miliwn!
- Nia:** Fydd dim rhaid iddyn nhw boeni am y biliau nawr.
- Delyth:** Na fydd, byddan nhw'n gallu anghofio amdany'n nhw.
- Nia:** Ond bydd pobl yn clywed amdany'n nhw'n ennill y loteri a byddan nhw'n gofyn am help.
- Delyth:** Wrth gwrs, a bydd stori drist gyda phawb!
- Nia:** Bydd. Wyt ti'n prynu tocyn loteri weithiau?
- Delyth:** Nac ydw, ond bydda i'n prynu tocyn fory!
- Nia:** Taset ti'n ennill y loteri faset ti'n dweud wrth bawb?
- Delyth:** O na faswn.
- Nia:** Baset ti'n dweud wrtha i.... dy ffrind orau.
- Delyth:** Baswn i'n dweud wrthot ti a neb arall!
- Nia:** Faset ti'n cofio amdana i.....mil....dwy fil efallai?
- Delyth:** Cofio amdanat ti? Mae digon o arian gyda ti'n barod!
- Nia:** Ha! Ha! Ha!

Geirfa

dweud wrth - *(to) tell*

Sgript Video - Video Script

- MARK:** Helo. Mark dw i.
- SIÂN:** Siân dw i.
- MARK:** Wel Siân. Beth hoffet ti wybod amdano i?
- SIÂN:** Beth hoffwn i wybod amdanot ti? Ym. Dw i ddim yn siŵr. Dweda rywbeth gwahanol wrtho i.
- MARK:** Ym.. Rhywbeth gwahanol? O'r gorau. Dw i'n siarad gormod.
- SIÂN:** Siarad gormod? Oes rhywbeth arall ddylwn i wybod amdanot ti?
- MARK:** Dw i'n hoffi gwyltio pobl a dyfalu popeth amdanyn nhw.
- SIÂN:** Wyt ti'n dyfalu'n gywir?
- MARK:** Wrth gwrs. Edrycha ar y cwpwl yn y gornel.
- SIÂN:** Pa gwpwl?
- MARK:** Na! Paid ag edrych arnyn nhw nawr!
- SIÂN:** Pam?
- MARK:** Edrychodd hi arnon ni. Maen nhw'n siarad amdanon ni...a dyn ni yn siarad amdanyn nhw!
- SIÂN:** Wyt ti'n siŵr?
- MARK:** Mae'r dyn gyda'r *beret*, wedi dweud wrthi hi, yn y sgert print llewpart, fod e'n filiwnydd. Mae hi wedi credu pob gair.
- SIÂN:** Ydy hi wir?
- MARK:** Ydy. Ac wyt ti'n gweld y fenyw sy'n gwisgo'r het *bobble*?
- SIÂN:** Ydw. Beth amdani hi?
- MARK:** Mae radio gyda hi yn ei chlust. Dyw hi ddim yn gwrando ar y dyn. Mae hi yn gwrando ar y radio.
- SIÂN:** A beth am y dyn gyda barf a'r siwmpwr streip?
- MARK:** Mae e'n cwyno am y cwrw. Ac mae hi yn y sgert binc yn ysgrifennu i Cosmopolitan.
- SIÂN:** Dw i'n poeni amdanot ti. Mae gormod o ddychymyg gyda ti!
- MARK:** Ha ha. Dwedais i wrthot ti mod i'n siarad gormod.

Geirfa

gwahanol - *different*
dyfalu - *(to) guess*
llewpart - *leopard*
miliwnydd - *millionaire*
barf - *beard*
cwyno - *(to) complain*
dychymyg - *imagination*

Atebion - Answers

Tasg sain / Audio task

Dweud beth wrtho i?
Darllenais i **amdanyn** nhw.
Gofynna i **am** y papur.
Meddylia **amdanyn** nhw'n ennill miliwn!
Bydd pobl yn clywed **amdanyn** nhw ac yn gofyn am help.
Baswn i'n dweud **wrthot** ti a neb arall.
Faset ti'n cofio **amdano** i?

Tasg fideo / Video task

Beth hoffai Siân wybod am Mark? Mae hi eisiau gwybod rhywbeth gwahanol am Mark.
Am bwy mae'r cwpwl wrth y bwrdd yn siarad? Maen nhw'n siarad am Mark a Siân.
Ar beth mae'r ferch gyda'r het *bobble* yn gwrando? Mae hi'n gwrando ar y radio.
Am beth mae'r dyn gyda'r barf yn cwyno? Mae e'n cwyno am y cwrw.
Ydy'r ferch yn y sgert binc yn ysgrifennu i Golwg? Nac ydy. Mae hi'n ysgrifennu i'r Cosmopolitan.
Pam mae Siân yn poeni am Mark? Mae hi'n meddwl bod gormod o dychymyg gyda fe.